WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 121A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tim Buckle, Alison Lewis a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ac mae wedi dangos ymrwymiad i'w gwella ymhellach.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ac mae wedi dangos ymrwymiad i'w gwella ymhellach 6

- Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau sy'n gysylltiedig â'i flaenoriaethau strategol 6
- Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau yn glir ac yn cael eu deall yn dda 7
- Mae arfarniadau o opsiynau yn ddatblygedig ac yn dryloyw 8
- Mae gan y Cyngor drefniadau ymgynghori effeithiol ar gyfer newidiadau i wasanaethau allweddol ac mae'n ymrwymedig i wella ei weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid 9
- Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau corfforaethol ar gyfer monitro effaith newidiadau i wasanaethau 11
- Mae’r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w brosesau gwneud penderfyniadau er mwyn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o newidiadau cynharach i wasanaethau 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 ‘Governance is about how public bodies ensure that they are doing the right things, in the right way, for the right people, in a timely, inclusive, open, honest and accountable manner. It comprises the systems and processes, and cultures and values, by which public bodies are directed and controlled and through which they account to, engage with and, where appropriate, lead their communities’.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau cynyddrannol, bach i'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel rheolwyr a lefel weithredol fel rhan o'r broses arferol o wneud newidiadau gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i ategu gan waith cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Mae penderfyniadau o'r fath yn aml yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, mae'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi: ‘Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.’[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer ‘Delivering good governance in local government’

[1] CIPFA/SOLACE, **Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] Llywodraeth Cymru: **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

mewn safon briodol, mae'r adolygiad yn darparu llinell sylfaen i'r Cyngor gynllunio rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, er mwyn llywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu newidiadau i wasanaethau a phenderfynu arnynt ystyriwyd agweddau ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â nifer o gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith y newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd roedd:

- rhaglen trawsnewid gofal cymdeithasol
- gwasanaethau llyfrgell
- darparu meithrinfeydd gofal dydd
- llwybrau bysiau
- gwasanaethau ymgysylltu a chyfranogiad ieuenctid

Nid ystyriwyd pob un o'r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau yn fanwl, ond yn hytrach fe'u defnyddiwyd fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.

6 Yn y Cyngor cynhaliwyd adolygiad cynharach o drefniadau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â newid gwasanaethau.[3] Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers ein hadolygiad diwethaf.

7 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ac mae wedi dangos ymrwymiad i'w gwella ymhellach.

# Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwella

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor nodi, pan wneir penderfyniadau ar gynigion ar gyfer newid gwasanaethau, sut y caiff effaith newidiadau arfaethedig ei mesur a'i monitro. |
| C2 | Dylai'r Cyngor egluro a hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn ei broses trosolwg a chraffu er mwyn annog a hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd. |
| C3 | Dylai'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith/blaenraglenni gwaith ei bwyllgor trosolwg a chraffu fel dogfen(ni) annibynnol ar wefan y Cyngor er mwyn sicrhau bod ei drefniadau yn fwy agored a thryloyw. |

[3] Swyddfa Archwilio Cymru: **Improvement Assessment 2015-16: Review of decision-making arrangements in relation to service change – Rhondda Cynon Taf County Borough Council, May 2016**

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer penderfynu ar newidiadau mawr i wasanaethau ac mae wedi dangos ymrwymiad i'w gwella ymhellach

### Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau sy'n gysylltiedig â'i flaenoriaethau strategol.

8 Mae gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau sy'n gysylltiedig â'i flaenoriaethau strategol. Gweledigaeth y Cyngor yw creu Cyngor Bwrdeistref sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfleoedd i bawb.[4] Bu'r Cyngor yn gwneud newidiadau i wasanaethau mewn ymateb i bwysau cyllidebol ac yn y Cynllun Corfforaethol mae'r Cyngor yn nodi ei ddull o ateb yr her sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol drwy wneud y canlynol:

- darparu gwasanaethau hanfodol yn dda;
- helpu pobl a chymunedau i helpu eu hunain;
- creu Cyngor Bwrdeistref cynaliadwy; a
- gweithredu o fewn ei adnoddau.

9 Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer newid gwasanaethau. Mae'r weledigaeth ar gyfer newid gwasanaethau wedi'i hymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, yr ymgynghorwyd arno fel rhan o ymgynghoriad y Cyngor ynghylch y cynigion cyllidebol ar gyfer 2016-17.

10 Mae'r Cyngor yn gwahaniaethu rhwng cynigion ar gyfer newid gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth. Diffinnir newidiadau i wasanaethau fel y rhai sy'n debygol o gael effaith amlwg ar wasanaethau rheng flaen. Mae'r Cyngor yn diffinio arbedion effeithlonrwydd fel ‘cost reducing measures which will not have an impact on the level of services provided, that is, they will be unnoticeable to service users/customers’.[5] Yn 2015-16 gwnaeth y Cyngor newidiadau i wasanaethau a effeithiodd ar wasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, ar gyfer 2016-17 nid oedd fframwaith y Cyngor ar gyfer cyflawni ei strategaeth gyllidebol yn cynnwys ‘newidiadau i wasanaethau’ o dan ddiffiniad y Cyngor.

11 Yn ogystal â chyflawni ei dargedau ar gyfer lleihau'r gyllideb, mae'r Cyngor hefyd wedi dewis buddsoddi mewn meysydd a dargedir yn y tair blaenoriaeth yn ei

[4] CBS Rhondda Cynon Taf: **The Way Ahead – The Council’s Corporate Plan 2016-2020**

[5] CBS Rhondda Cynon Taf: **Report to Cabinet, 10th November 2015 – Medium Term Service Planning – Service Change Proposals**

Gynllun Corfforaethol. Mae blaenoriaethau strategol allweddol y Cyngor fel a ganlyn:

- yr economi – datblygu economi gref;
- pobl – hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb; ac
- lle – creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddynt.

Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau polisi fel y gall fynd ati i fuddsoddi mewn meysydd sy'n cefnogi ei flaenoriaethau, yn ei farn ef. Er enghraifft, newidiodd y Cyngor ei bolisi o gau canolfannau hamdden i fuddsoddi ynddynt a sicrhau eu bod yn gynaliadwy drwy gynyddu'r incwm a geir o'r cyfleusterau gwell.

12 Mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o newid gwasanaethau yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae uwch dîm arwain y Cyngor yn hyrwyddo newid diwylliannol sy'n seiliedig ar sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio'n fwy ar y canlynol: perfformiad, atal, canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer, buddsoddi yn y dyfodol ac arddel safbwynt tymor hwy.
Un enghraifft o'r dull hwn o weithredu yw'r polisi sy'n cael ei ddatblygu i leoli gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai er mwyn helpu i atal oedi cyn y gall cleifion adael yr ysbyty.

13 Mae'r Cyngor wedi cynnal sawl menter mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori yn y broses o newid gwasanaethau. Nid yw ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy yn rhan o'r papurau arfarnu opsiynau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i ymgorffori ystyriaethau o ran cynaliadwyedd yn well yn y broses o newid gwasanaethau yn y dyfodol.

## Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau yn glir ac yn cael eu deall yn dda

14 Mae'r aelodau a swyddogion yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ynghylch gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau. Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau i'w weithdrefnau sy'n golygu bod prosesau yn fwy tryloyw. O dan y cynllun dirprwyo newydd, a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2016, mae pob aelod bellach yn cael ei hysbysu pan fydd Aelod o'r Cabinet yn gwneud penderfyniad wedi'i ddirprwyo. Mae hyn yn cynnig mwy o gyfle i graffu ar benderfyniadau yn amserol.

15 Cefnogir newidiadau i wasanaethau rheng flaen yn y Cyngor gan swyddogion arbenigol o'r adran gyllid, yr adran adnoddau dynol a'r adran gwasanaethau cyfreithiol. Gwnaeth swyddogion o wasanaethau rheng flaen sylwadau cadarnhaol ar y cymorth a gânt gan y swyddogion arbenigol hyn drwy'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau a'u rhoi ar waith.

16 Lle y bo angen cwblheir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer newidiadau i wasanaethau, fe'u cynhelir gan swyddog cymorth corfforaethol sy'n cydweithio â

rheolwyr y gwasanaethau gweithredol. Wedyn bydd un o gyfreithwyr y Cyngor yn sicrhau y caiff yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu cofnodi'n gywir drwy broses gwneud penderfyniadau. Mae cyfleoedd i atgyfnerthu proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach o fewn y Cyngor drwy wneud y canlynol:

- annog rheolwyr y gwasanaethau gweithredol i fod yn fwy cyfrifol am y broses o ddatblygu a defnyddio'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyfrannu mwy at y broses honno;
- sicrhau bod mwy o ddata perthnasol ar gael i lywio'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a bod yn gliriach ynghylch effeithiau penodol (mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor yn nodi bod angen atgyfnerthu'r data er mwyn cefnogi'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb);[6] ac
- adolygu'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ôl newid gwasanaethau er mwyn gweld a gafodd yr effeithiau a ragwelwyd eu lliniaru'n llwyddiannus a/neu a oedd unrhyw effeithiau nas bwriadwyd. Byddai hyn yn helpu i lywio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y dyfodol.

## Mae arfarniadau o opsiynau yn ddatblygedig ac yn dryloyw

17 Edrychwyd ar sawl enghraifft o newidiadau i wasanaethau fel rhan o'n hadolygiad a nodwyd gennym fod amrywiaeth o opsiynau, wedi'u hategu gan feini prawf manwl, wedi'u hystyried. Roedd yr Aelodau a gyfwelwyd gennym hefyd o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiadau am opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau yn gynhwysfawr.

18 Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau fel y gellir craffu ar gynigion ar gyfer newid gwasanaethau a'u herio. Yn dilyn ein hadolygiad cynharach yn 2015-16, gwnaethom y cynnig canlynol ar gyfer gwella, sef y dylai'r Cyngor '... enhance the forward work programme for Cabinet by including details of the purpose and contents of reports, and making the programme accessible to facilitate opportunities for pre-decision scrutiny.'

19 Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar y cynnig ar gyfer gwella ac mae bellach yn cyhoeddi blaenraglen waith y Cabinet, ar sail dreigl, ar gyfer y flwyddyn drefol.[7] Cyflwynir adroddiad ar y rhaglen waith i'r Cabinet bob tri mis er mwyn darparu ar gyfer diweddariadau rheolaidd. Nodir y rhaglen waith ar ffurf tabl ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol: cynnwys yr adroddiad, y dyddiad y bwriedir ei gyflwyno i'r Cabinet, yr Aelod cyfrifol o'r Cabinet/swyddog cyfrifol, a fydd yr adroddiad yn adroddiad agored neu wedi'i eithrio ac a fwriedir ymgynghori cyn gwneud penderfyniad. Er mwyn hwyluso tryloywder, cyhoeddir y rhaglen waith ar brif dudalennau'r Cabinet ar wefan y Cyngor hefyd. Dangosir effaith y newid hwn o ran helpu i graffu ar gynigion ar gyfer newid gwasanaethau a'u herio gan y Pwyllgor

[6] CBS Rhondda Cynon Taf: Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2014-15

[7] CBS Rhondda Cynon Taf: **Report to Cabinet, 23rd June 2016 – Cabinet Work Programme 2016-17 Municipal Year**

Trosolwg a Chraffu lle y gofynnir i'r Aelodau bellach ystyried unrhyw eitemau ar raglen waith y Cabinet y maent am iddynt fod yn destun prose craffu cyn penderfynu.[8]

20 Ceir achosion lle mae'r Cabinet yn ystyried eitemau ac yn penderfynu ar eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Cabinet. Mae'r Cyngor yn gweithio i gwtogi cymaint â phosibl ar nifer yr achosion o'r fath.

21 Mae'r broses o ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y gyllideb hefyd yn tystio i'r ffaith bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer craffu ar gynigion wedi'u hatgyfnerthu. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Cyllid a Chraffu ar Berfformiad, cyflwynwyd y strategaeth gyllidebol ddrafft er mwyn iddo fod yn destun proses cyn penderfynu yng nghyfarfod y pwyllgor ar 27 Ionawr 2016. O ganlyniad, bu'n bosibl i Aelodau anweithredol ystyried cynigion a helpu i lywio'r broses o'u datblygu cyn i'r Cabinet ystyried y manylion llawn.

22 Mae gweithgarwch craffu cyn penderfynu yn dal i ddatblygu o fewn y Cyngor ond cafwyd enghreifftiau o graffu ar newidiadau i wasanaethau cyn gwneud penderfyniad, gan gynnwys y gwaith a oedd yn ymwneud â'r rhaglen buddsoddi mewn hamdden a'r newidiadau i'r gwasanaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Mae pwyllgorau craffu bob amser yn cael eu cynnwys fel ymgynghorai ar gynigion ar gyfer newid gwasanaethau.

## Mae gan y Cyngor drefniadau ymgynghori effeithiol ar gyfer newidiadau allweddol i wasanaethau ac mae'n ymrwymedig i wella ei weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

23 Rhoddodd y Cyngor drefniadau ymgynghori cynhwysfawr ar waith ar gyfer y cynigion ar gyfer newid gwasanaethau. Cytunwyd ar y broses a'r deunyddiau ymgynghori gan Uwch Dîm Arwain y Cyngor. Darparodd y deunyddiau ymgynghori wybodaeth glir mewn fformat priodol a dealladwy. Yn ogystal â defnyddio tudalennau gwe hwb ymgynghori Cwm Taf, dosbarthwyd deunyddiau papur copi yn eang (dosbarthwyd dros 47,000 o gopïau o'r llyfryn ymgynghori). Cynhyrchodd y Cyngor fideo ar gyfer YouTube hefyd er mwyn rhoi cyflwyniad hawdd ei deall i'r ymgynghoriad, a oedd yn dangos sut y gallai pobl gymryd rhan ynddo yn ogystal â rhoi manylion y cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau eu hunain. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo'n eang yn y wasg a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliodd y Cyngor 13 o sesiynau ymgysylltu. Datblygwyd fersiynau o'r llyfryn ymgynghori i bobl ifanc hefyd i'w defnyddio mewn fforymau ieuenctid a sesiynau cynghorau ysgol. Hefyd, gwahoddwyd pobl ifanc i ddigwyddiad ymgysylltu â phobl ifanc yn swyddfeydd y Cyngor. Yn ogystal â cheisio eu barn ar y newidiadau arfaethedig gofynnodd yr holiadur i ymatebwyr nodi pa effaith y byddai'r

[8] CBS Rhondda Cynon Taf: **Minutes of Overview and Scrutiny Committee, 5th July 2016**

newidiadau i wasanaethau yn ei chael arnyn nhw fel defnyddwyr gwasanaethau neu ar eu teulu.

24 Mae'r Cyngor yn cynnig digon o gyfleoedd i Aelodau'r Cabinet adolygu'r wybodaeth a geir gan randdeiliaid fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Yn ogystal â chynnwys gwybodaeth gynhwysfawr yn yr adroddiadau i'r Cabinet, gall Aelodau'r Cabinet hefyd weld pob ymateb a ddaw i law cyn y cyfarfod perthnasol o'r Cabinet. Gall y Cyngor ddangos bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, yn y penderfyniadau i beidio â bwrw ymlaen â newidiadau arfaethedig i lwybrau bysiau â chymorth a llyfrgelloedd ag un aelod o staff.

25 Darperir yr adborth ar y newidiadau i wasanaethau ar wefan hwb ymgynghori Cwm Taf ac yn adroddiad perthnasol y Cabinet. Nid yw'r Cyngor yn gweddarlledu ei gyfarfodydd ond mae'r Cyngor yn trydar y ddolen i'r adroddiadau ac wedyn yn cyhoeddi cofnod o'r penderfyniad ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor. Mae gwasanaethau rheng flaen hefyd yn hysbysu defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'r broses o weithredu newidiadau i wasanaethau e.e. gwybodaeth uniongyrchol a anfonir/darperir mewn mannau cyflenwi h.y. gwybodaeth am newidiadau i oriau agor llyfrgelloedd, gwybodaeth i bobl ifanc am newidiadau i'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid.

26 Yn ogystal ag ymgynghori ar gynigion penodol ar gyfer newid gwasanaethau, mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn awyddus i ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill â diddordeb ynghylch ei strategaeth gyllidebol gyffredinol a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'r Cyngor yn ceisio bod yn fwy rhagweithiol o ran ymgysylltu â chymunedau ac mae wedi sefydlu rhaglen 'RhCT Gyda'n Gilydd' er mwyn cefnogi'r dull hwn o weithredu. Mae dull 'RhCT Gyda'n Gilydd' yn ceisio annog cymunedau i helpu i ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau yn y dyfodol Gofynnwyd i gymunedau nodi gwasanaethau ac asedau y gallai fod ganddynt ddiddordeb yn eu rhedeg. Unwaith y bydd datganiad o ddiddordeb wedi'i wneud bydd y Cyngor yn sefydlu tîm i weithio gyda'r gymuned/grŵp er mwyn ei helpu i wneud hyn. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu'r dull hwn o weithredu.

27 Nid yw blaenraglenni gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu yn ddigon amlwg ac nid yw'r trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn gweithgarwch craffu yn ddigon clir. Ar hyn o bryd dim ond o fewn papurau'r cyfarfodydd craffu y ceir blaenraglen waith pwyllgorau trosolwg a chraffu ac, felly, mae'n anodd i aelodau o'r cyhoedd gael gafael arni. Byddai gweithgarwch craffu yn fwy agored a thryloyw pe bai'r Cyngor yn cyhoeddi blaenraglen waith/blaenraglenni gwaith pwyllgorau trosolwg a chraffu fel dogfen annibynnol ar y wefan, yn yr un ffordd ag y cyhoeddir rhaglen waith y Cabinet ar hyn o bryd.

## Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau corfforaethol ar gyfer monitro effaith newidiadau i wasanaethau

28 Yn dilyn ein hadolygiad cynharach yn 2015-16, gwnaethom y cynnig canlynol ar gyfer gwella, sef y dylai'r Cyngor '... ddatblygu dull o nodi effaith newidiadau i wasanaethau yn systematig a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau yn y dyfodol.' Ar ôl hynny penderfynodd y Cyngor, 'Yn y dyfodol, caiff adroddiadau ar yr holl newidiadau sylweddol i wasanaethau eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu bob chwe mis am y flwyddyn gyntaf yn dilyn y newid.'[9]

29 Mae'r pwyllgor craffu eisoes wedi dechrau monitro effaith y newidiadau i wasanaethau ac mae adolygiadau pellach wedi'u hymgorffori yn y flaenraglen waith. Gellid atgyfnerthu'r trefniant ar gyfer monitro effeithiau ymhellach pe bai'r Cyngor yn nodi, pan wneir penderfyniadau ar gynigion ar gyfer newid gwasanaethau, sut y caiff effaith newidiadau arfaethedig eu mesur a'u monitro.

30 Mae llwyddiant o ran cyflawni arbedion ariannol rhagamcanol o newidiadau i wasanaethau yn cael ei fonitro drwy drefniadau monitro cyllidebol y Cyngor. Nododd ein hadroddiad ar Gydnerthedd Ariannol y Cyngor, 'Cyflawnodd y Cyngor ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-16 yn llawn. Mae'r cyflawniad hwn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith mai dim ond ar ôl i achosion busnes gael eu datblygu ac ar ôl cytuno ar y manylion perthnasol y mae'r Cyngor yn ymgorffori arbedion cyllidebol yn ei gyllideb refeniw sylfaenol. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi sicrwydd y caiff yr arbedion eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.'[10]

## Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w brosesau gwneud penderfyniadau er mwyn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o newidiadau cynharach i wasanaethau

31 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer newid gwasanaethau drwy gymhwyso'r hyn a ddysgwyd o newidiadau blaenorol i wasanaethau. Mae'r Cyngor hefyd yn dysgu o ganlyniadau adolygiadau barnwrol mewn cynghorau eraill ac yn defnyddio hyn i wella ei brosesau ymhellach. Y wers allweddol a ddysgwyd o newidiadau cynharach i wasanaethau oedd bod angen gwella prosesau cyfathrebu. Roedd hyn yn cynnwys:

- hysbysu pawb (staff a'r cyhoedd) yn well am newidiadau i wasanaethau. Ar gyfer ail gam y rhaglen newid gwasanaethau mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu gwella prosesau cyfathrebu â'r cyhoedd yn ogystal â llunio

[9] CBS Rhondda Cynon Taf: **Report to Cabinet, 23rd June 2016 – Wales Audit Office Corporate Reports**

[10] Swyddfa Archwilio Cymru: **Cydnerthedd Ariannol: Cynllunio Arbedion – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tachwedd 2016**

cynlluniau mwy cadarn ar gyfer rhoi gwybodaeth i staff y mae newidiadau i wasanaethau yn effeithio arnynt yn rheolaidd;

- cafwyd gwell ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod yr ail gylch o newidiadau i wasanaethau ond mae'r Cyngor yn nodi bod hwn yn faes lle mae am wneud gwelliannau pellach; ac
- mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio'n fwy ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i helpu'r cyhoedd i gyfrannu at y broses o newid gwasanaethau a deall y broses honno.

32 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol at ganfyddiadau adroddiad cynharach Swyddfa Archwilio Cymru ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau ac wedi cymryd camau i roi'r cynigion ar gyfer gwella ar waith.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru